

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Environment and Sustainability Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru

10 Ebrill 2014

Annwyl Carl

Cynllunio Cadarnhaol a Bil Cynllunio Drafft (Cymru)

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cynnal gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil Cynllunio Drafft (Cymru) a'r pecyn ehangach o gynigion i ddiwygio'r system gynllunio sydd wedi'u nodi yn y papur ymgynghori *Cynllunio Cadarnhaol*. Fel man cychwyn, rydym wedi penderfynu adolygu'r dystiolaeth a ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru fel sail i'w chynigion, yn ogystal â chymharu'r cynigion â systemau cynllunio mewn rhannau eraill o'r DU, yn arbennig yn Lloegr, yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd yno gan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

1.2 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y rhai a gyfrannodd at baratoi'r dystiolaeth, gan gynnwys Cadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol a nifer o ymgynghorwyr sydd wedi cynhyrchu adroddiadau ymchwil ar agweddau ar y system gynllunio. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA

Ffôn | Tel: 029 2089 8639

E-bost | Email: alun.davidson@wales.gov.uk

gyfreithwyr cynllunio, swyddogion llywodraeth leol, cynrychiolwyr o'r Parciau Cenedlaethol ac Un Llais Cymru, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Cymorth Cynllunio Cymru a Cymorth Cynllunio Lloegr.

1.3 Mae'r llythyr hwn yn nodi ein barn ar y pecyn o ddiwygiadau cynllunio adeg y cyfnod cyn deddfu hwn o'r broses. Rydym yn anfon y llythyr atoch nawr fel bod digon o amser inni ddylanwadu ar ffurf y pecyn llawn o gynigion diwygio cynllunio, gan gynnwys cynnwys diwygiedig y Bil a gaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad yn ddiweddarach eleni.

2. Sylwadau cyffredinol

2.1 Rydym yn cefnogi **dull seiliedig ar dystiolaeth** Llywodraeth Cymru ar gyfer paratoi ei phecyn o ddiwygiadau. Rydym hefyd wedi clywed cefnogaeth eang ar gyfer llawer o'r cynigion. Fodd bynnag, nid yw *Cynllunio Cadarnhaol* yn cyfeirio at bob maes, felly byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru egluro a yw hyn oherwydd nad yw'n cytuno â'r argymhellion sy'n deillio o'r dystiolaeth, neu oherwydd nad yw eto wedi cael yr amser a'r adnoddau i weithio ar y meysydd hynny.

2.2 Nid oes digon o fanylion ar gyfer rhai o'r cynigion yn *Cynllunio Cadarnhaol* i farnu pa effaith fyddant yn ei chael. Rydym yn bryderus ynghylch rhoi gofynion statudol newydd ar waith heb ragor o wybodaeth am beth fyddant yn golygu yn ymarferol. Un enghraifft o hyn yw'r cynnig ar gyfer cynllun cenedlaethol i ddirprwyo penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i swyddogion. Gwnaeth ymchwil Fortismere/Arup argymhellion penodol ynghylch cynnwys cynllun o'r fath, gan gynnwys targed dirprwyo y dylai 95% o'r holl geisiadau gael eu penderfynu gan swyddogion. Hoffem wybod a oes bwriad gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r argymhellion hynny. Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i **ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl ar gyfer pob un o'r cynigion yn y Memorandwm Esboniadol** a fydd yn ategu'r Bil, hyd yn oed pan fydd angen is-ddeddfwriaeth ar y cynigion yn y dyfodol.

2.3 Un o amcanion Llywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn Cynllunio Cadarnhaol yw ei gwneud yn haws i ddinasyddion ddylanwadu ar ddyfodol cymunedau. Er bod y cynigion yn ychwanegu dwy lefel ychwanegol o Gynlluniau Datblygu yn ogystal â phroses newydd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ein barn ni yw y gallai'r newidiadau hyn helpu i egluro'r gwahanol rolau a chyfrifoldebau o fewn y system gynllunio. Fodd bynnag, mae gennym rai amheuan ynglŷn â chasgliad gwaith ymchwil Public Attitudes bod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon â'r system gynllunio. Yn sicr, nid oes ymwybyddiaeth eang o'r system a sut y gall pobl ymgysylltu a dylanwadu arni. Rydym yn cefnogi galwad Cymorth Cynllunio Cymru **am ddatganiad clir yn nodi sut y gall y cyhoedd gymryd rhan ar bob lefel.**

2.4 Mae'n bwysig nad yw'r system gynllunio yn cael ei hystyried yn system "o'r brig i lawr" – mae gan gymunedau lleol gyfraniad gwerthfawr i'w wneud. Er enghraifft, mae angen i'r cymunedau hynny gael llais yn y penderfyniad ynghylch nifer y tai newydd yn eu hardal, yn ogystal â'u lleoliad. Mae ganddynt hefyd rôl bwysig o ran helpu awdurdodau cynllunio lleol i asesu effaith cynigion datblygu ar yr iaith Gymraeg drwy'r broses Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol 20 diwygiedig yn disgwyl i Awdurdodau Cynllunio Lleol asesu effaith strategaeth gofodol y Cynlluniau Datblygu Lleol, ei bolisiâu a'i ddyraniadau tir ar yr iaith Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg, a hynny drwy'r gwerthusiad cynaliadwyedd. Bydd angen monitro effaith y dull newydd hwn yn ofalus. Oherwydd effaith bosibl y system gynllunio ar yr iaith Gymraeg, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ofyniad statudol i werthusiadau cynaliadwyedd Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried effaith y cynllun ar yr iaith Gymraeg. Dylai gofyniad o'r fath hefyd fod yn berthnasol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol.

2.5 Rydym yn nodi'r datganiad yn *Cynllunio Cadarnhaol* na fydd y diwygiadau yn arwain at gostau ychwanegol, ond fe fydd ychydig o ailddosbarthu cyllid. Rydym hefyd yn nodi'r awgrym y bydd cynnydd mewn incwm o ffioedd. Yn ein barn ni, bydd gan y pecyn o gynigion **oblygiadau sylweddol o ran adnoddau ar gyfer yr holl randdeiliaid**, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, cynghorau tref a chymuned, ymgynghores statudol a datblygwyr. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gynhyrchu **Asesiad Effaith Rheoleiddiol trwyadl i gyd-fynd â'r Bil diwygiedig a fydd yn egluro effaith y gofynion ychwanegol ar adnoddau'r holl randdeiliaid ac yn galluogi asesiad llawn o werth am arian y newidiadau arfaethedig** (ee Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol).

2.6 Rydym am weld **esboniad cliriach o'r berthynas rhwng y cynigion i ddiwygio cynllunio a deddfwriaeth bresennol ac arfaethedig arall**, gan gynnwys Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd a'r Bil Treftadaeth. Yn benodol, rydym eisiau mwy o wybodaeth am sut bydd y prosesau a'r strwythurau diwygiedig ar gyfer cynllunio defnydd tir yn **cydweithio â systemau "cynllunio" eraill** fel y rhai ar gyfer **adnoddau naturiol, trafnidiaeth a'r môr**. Yn olaf, byddai rhagor o wybodaeth am sut y mae'r **cynigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol yn cyd-fynd ag ardaloedd eraill sydd wedi'u diffinio, fel y dinas-ranbarthau**, yn ddefnyddiol.

2.7 Thema gyffredinol yn y dystiolaeth a glywsom oedd pryder am **ddiffyg democrataidd posibl** ar draws gwahanol raddfeydd daearyddol y cynigion. Pryder penodol oedd y cynnig i gael **traean o Aelodau heb eu hethol** ar Baneli Cynlluniau Datblygu Strategol a sut byddai'r fframwaith cymhwysedd cynllunio yn berthnasol i'r aelodau hynny. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ddod o hyd i ffyrdd eraill o sicrhau bod **llais cymunedol lleol yn rhan o'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Strategol**, yn enwedig gan y bydd llai o rôl i Gynlluniau Datblygu Lleol yn yr ardaloedd hynny lle caiff Cynllun Datblygu Strategol ei baratoi. Mae adroddiad Comisiwn Williams yn awgrymu y

dylai Llywodraeth Cymru ystyried un Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y tri pharc yng Nghymru. Rydym hefyd yn pryderu sut y bydd **cymunedau lleol yn cael llais mewn materion cynllunio os mai un awdurdod cynllunio fydd ar gyfer y tri pharc.**

2.8 Rydym yn pryderu'n benodol am rôl **Cynghorau Tref a Chymuned** yn y system gynllunio ddiwygiedig, gan gynnwys y cynigion i lunio Cynlluniau Lleoedd y gellir eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Ategol. Gellir ond paratoi'r cynlluniau hyn ar ddiwedd y broses o lunio cynlluniau datblygu ar ôl i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei baratoi, er bod angen cynnwys cymunedau yn y broses gyfan. Rydym o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru adolygu ei chynigion i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cynnwys ym mhob cam o broses y cynllun datblygu. Mae maint ac aelodaeth amrywiol Cynghorau Tref a Chymuned ledled Cymru yn bryder yn ogystal â'r ffaith bod cynrychiolaeth ddaearyddol yn anghyflawn. Gallwn weld diffyg democrataidd posibl ar y lefel hon hefyd, o gofio bod rhai o'r cynghorau hyn yn dibynnu ar aelodau cyfetholedig, a'u bod heb gynnal etholiadau ers nifer o flynyddoedd.

2.9 Rydym o'r farn nad oes angen y prosesau mwy ffurfiol ar gyfer cynhyrchu Cynlluniau Cymdogaeth sydd wedi'u rhoi ar waith yn Lloegr. Rydym hefyd yn aneglur ynglŷn â'r berthynas rhwng Cynlluniau Lleoedd â Chynlluniau Datblygu Lleol wedi'u symleiddio pan fydd Cynllun Datblygu Strategol hefyd ar waith. Os caiff Cynlluniau Lleoedd eu cyflwyno, rydym yn cefnogi cynnal **cynllun peilot**, ond bydd angen i Lywodraeth Cymru ddewis yr ardaloedd peilot yn ofalus. Mae yna hefyd **oblygiadau posibl ar adnoddau** Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau Cynllunio Lleol, ac fe fyddai'r cynlluniau peilot yn help i ddeall mwy am hynny. Rydym hefyd yn cefnogi'r cysyniad o '**glystyru**', gyda nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn dod at ei gilydd i lunio Cynllun Lle, neu gysylltu â'r system gynllunio mewn ffordd arall.

2.10 Mae **cymhlethdod deddfwriaeth gynllunio bresennol Cymru** yn bryder, a bydd y Bil yn gwaethygu hynny drwy wneud gwelliannau pellach i nifer o Ddeddfau presennol Cymru a Lloegr. Dywedodd y cyfreithwyr cynllunio wrth y Pwyllgor y gallai'r cymhlethdod hwn a'r dryswch y mae'n ei greu fod yn rhwystr i fewnfuddsoddi. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau gyda'r gwaith o **gydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth cynllunio** Cymru cyn gynted â phosibl.

2.11 Mae gan adroddiad **Comisiwn Williams** a'i argymhellion i leihau nifer yr awdurdodau cynllunio lleol **oblygiadau amlwg ar gyfer y pecyn o ddiwygiadau cynllunio**. Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn ystyried lleihau'r angen am Gynlluniau Datblygu Strategol mewn rhai rhannau o Gymru. Fodd bynnag, nodwn fod Comisiwn Williams o'r farn y byddai llai o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn golygu y gallai fod llai o angen i gyfuno rhai swyddogaethau cynllunio ar lefel genedlaethol. Hoffai'r Pwyllgor weld **tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried effaith cael llai o Awdurdodau Cynllunio Lleol ar yr holl gynigion i ddiwygio cynllunio**, ac nid yn unig ar yr angen am Gynlluniau Datblygu Strategol.

2.12 Ymddengys fod yr argymhelliad yn **Rhan 2 o adroddiad Comisiwn Silk** i ddatganoli caniatadau prosiectau ynni rhwng 50 a 350 MegaWat i Weinidogion Cymru yn gydnaws â'r cynigion yn y Bil, sef y dylai Llywodraeth Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Fodd bynnag, byddai gan hynny oblygiadau ar adnoddau Llywodraeth Cymru ac eraill oherwydd cymhlethdod datblygiadau mwy o faint.

3. Materion o'r dystiolaeth na chafodd eu cynnwys yng nghynigion Llywodraeth Cymru

3.1 Hoffem weld **Diben Statudol ar gyfer cynllunio** ar wyneb y Bil. Roedd hynny'n un o argymhellion y Grŵp Cyngori Annibynnol ac rydym o'r farn y byddai'n helpu i gyflawni'r newid diwylliant gofynnol.

Rydym yn cefnogi'r **diffiniad clir yn adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol** mai pwrpas y system gynllunio yw rheoleiddio a rheoli sut caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio mewn ffordd sy'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy. Rydym yn cytuno na fyddai'n briodol i ddiffinio datblygu cynaliadwy ar wyneb y Bil.

3.2 Roedd adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol yn gwneud nifer o argymhellion am **y broses galw i mewn**, ond does dim golwg ohonynt yn y cynigion. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen i'r holl randdeiliaid newid eu diwylliant. Byddai'n atgyfnerthu'r neges honno pe bai'r Llywodraeth yn gosod esiempl. Er y byddai cyflwyno Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn lleihau nifer y ceisiadau sy'n cael eu galw i mewn, byddai'r broses yn parhau. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru **ystyried mabwysiadu cynigion y Grŵp Cynghori Annibynnol ar ddiwygio'r broses galw i mewn**, yn enwedig drwy **osod terfyn amser** i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad.

3.3 Rydym hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru edrych eto ar **argymhellion y Grŵp Cynghori Annibynnol ynghylch prynu gorfodol**. Yn y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor, y pryder mwyaf oedd ynghylch **bod yn gyson** â'r rheolau sy'n berthnasol yn **Lloegr**, am fod system cyfraith tir gyffredin yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae cyfuno pwerau prynu gorfodol o wahanol ddeddfwriaeth mewn **un set o bwerau** ar gyfer Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol hefyd yn ymddangos yn gynnig synhwyrol.

3.4 Mae *Cynllunio Cadarnhaol* wedi ystyried rhai o argymhellion y gwaith ymchwil ar **orfodi**. Fodd bynnag, nid yw defnyddio **hysbysiadau cosb benodedig a dileu'r terfynau amser** ar gyfer rhoi camau gorfodi ar waith yn ymddangos yn y cynigion. Roedd defnyddio hysbysiadau cosb benodedig hefyd yn un o argymhellion y Grŵp Cynghori Annibynnol. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried y ddau gynnig uchod eto neu o leiaf esbonio'r rhesymau pam nad ydynt wedi eu cynnwys.

3.5 Un o brif negeseuon yr ymchwil ar *Gyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau sydd wedi'u Pennu'n Statudol* oedd bod gan **Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol** statws cyfartal o ran ansawdd y dirwedd a harddwch golygfeydd ac y dylent felly gael yr un amddiffyniad rhag datblygu amhriodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw eto wedi dod i benderfyniad terfynol ynghylch a ddylai Awdurdodau Parc Cenedlaethol gadw eu swyddogaeth gynllunio. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad yn *Cynllunio Cadarnhaol* at drefniadau ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau cynllunio mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Wrth i Lywodraeth Cymru ddod i farn derfynol ar ddyfodol swyddogaethau cynllunio Parciau Cenedlaethol dylai hefyd **ystyried a yw'r trefniadau cynllunio presennol mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn foddhaol.**

3.6 Gwnaeth y Grŵp Cyngori Annibynnol nifer o argymhellion technegol manwl ynghylch **cytundebau Adran 106**. Fodd bynnag, nid oes yr un ohonynt wedi'u cynnwys yn y cynigion yn *Cynllunio Cadarnhaol*. Nid oes unrhyw amheuaeth y gall cytundebau adran 106 achosi oedi a rhwystredigaeth. Ceisiodd y Grŵp Cyngori Annibynnol fynd i'r afael â mater penodol yn ymwneud â'r gofynion i gadw anheddau yn rhai fforddiadwy "am byth". Oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio'n barhaus mae'n **bwysig bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r pwerau o dan Adran 106** gyda'r nod o gyflwyno mwy o hyblygrwydd ac i ganiatáu trosglwyddo tir.

3.7 Cymhlethdod pellach yw'r newid yn rôl cytundebau Adran 106 a'u perthynas â'r **Ardoll Seilwaith Cymunedol**, sy'n fater sydd heb ei ddatganoli. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi **cefnogi galwad Llywodraeth Cymru i ddatganoli'r cyfrifoldeb am yr Ardoll Seilwaith Cymunedol**. Nid yw dau adroddiad Comisiwn Silk yn glir ynghylch a yw'n cytuno â'r cynnig hwn ai peidio. Mae rheoliadau Llywodraeth y DU eisoes yn mynnu bod 15% o'r cyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, ar ôl eu casglu, yn mynd i Gynghorau Cymuned yng Nghymru. Awgrymwyd

wrth y Pwyllgor y gellir brigdorri cyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn y dyfodol er mwyn darparu Cynlluniau Datblygu Strategol.

3.8 Mae'n synhwyrol fod *Cynllunio Cadarnhaol* yn ymdrin â'r agweddau ar y system gynllunio sydd wedi'u datganoli, ond nid yw'r hierarchaeth ddatblygu sy'n cael ei chyflwyno yn adlewyrchu bodolaeth y gyfundrefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, sydd ar frig yr hierarchaeth. Mae hyn yn ychwanegu cymhlethdod ychwanegol i'r broses yng Nghymru. Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch a yw'n derbyn argymhelliad y Grŵp Cyngori Annibynnol ai peidio, sef, os na chaiff caniatadau ynni eu datganoli ymhellach, **mai Gweinidogion Cymru ddylai benderfynu ar ddatblygiadau cysylltiedig ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn hytrach nag awdurdodau cynllunio lleol.**

3.9 Pryder mawr i'r Pwyllgor yn ei waith blaenorol ar ynni oedd yr oedi sy'n cael ei achosi weithiau gan systemau caniatâd eraill. Yn ein hadroddiad ar ynni, roedd argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system sy'n **integreiddio systemau cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol yn well.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn gan ddweud ei bod wedi ymrwymo i symleiddio deddfwriaeth cynllunio ac amgylcheddol cyn gynted a bo modd. Gwnaeth y Grŵp Cyngori Annibynnol hefyd argymhelliad ynghylch caniatáu i **drwyddedu cyfochrog** ddigwydd ochr yn ochr â chais cynllunio lle bo modd. Fodd bynnag, nid oes sôn am y mater hwn yn Cynllunio Cadarnhaol. Nodwn fod y **Cynllun Cyflawni Ynni Cymru** a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014 yn cyhoeddi **Fforwm Caniatadau Ynni Cymru** newydd. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried ymhellach sut y gellir symleiddio systemau trwyddedu eraill i redeg ochr yn ochr â cheisiadau cynllunio lle bo modd, yn ogystal ag egluro rôl Fforwm Caniatadau Ynni Cymru a sut y mae'n ymwneud â chynigion *Cynllunio Cadarnhaol*.

4. Sylwadau ar rai o'r cynigion yn Cynllunio Cadarnhaol/y Bil Drafft

4.1 Rydym yn cefnogi sefydlu'r **Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio**. Bydd gan y gwasanaeth rôl bwysig o ran rhannu arbenigedd a hyrwyddo newid mewn diwylliant yn y system gynllunio. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod y gwasanaeth yn cael ei ystyried yn **annibynnol** ac nid yn gangen o Lywodraeth Cymru.


4.2 Rydym yn cymeradwyo'n llawn bwysigrwydd cael **Cynlluniau Datblygu Lleol** cyflawn a chyfredol gan bawb ac yn croesawu'r cynigion i fireinio'r broses Cynlluniau Datblygu Lleol drwy esblygiad pellach yn hytrach na gwneud newidiadau ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon nad yw'r **cynigion yn mynd yn ddigon pell** i sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn **llunio a rhoi eu cynlluniau ar waith**. Rydym o'r farn nad yw'n briodol i Lywodraeth Cymru lunio Cynlluniau Datblygu Lleol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, am fod cefnogaeth y gymunedol leol i gynigion mewn cynllun mor bwysig. Hefyd, nid oes ganddi'r adnoddau i ysgwyddo'r gwaith hwn. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei chynigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol, gan gynnwys sut y gellid cryfhau'r pwerau statudol presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi cynlluniau o'r fath ac i edrych eto ar **rai o argymhellion ymchwil Prifysgol Caerdydd/Arup** – er enghraifft, cyflwyno system cymhellion a chosbau i hwyluso paratoi cynlluniau yn amserol ac i osod dyletswydd statudol ar awdurdod cynllunio lleol i roi Cynllun Datblygu Lleol ar waith yn syth ar ôl ei fabwysiadu.

4.3 Mae angen eglurder pellach ynglŷn â beth yw **diffiniad Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**. Er bod Atodiad B *Cynllunio Cadarnhaol* yn nodi trothwyon a meini prawf, mae'r papur hefyd yn nodi y gellir canfod prosiectau o'r fath drwy'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, cynlluniau trafndiaeth neu bolisi adnoddau naturiol.

4.4 Rydym yn croesawu'r pwyslais newydd ar gael cyngor cyn gwneud cais. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod statws cyngor o'r fath yn cael ei wneud yn hollol glir mewn unrhyw ofynion deddfwriaethol newydd a bod mesurau diogelwch priodol hefyd yn cael eu cynnwys.

4.5 Rydym yn cytuno bod angen cysoni maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio ledled Cymru ond nid ydym yn siŵr beth fyddai goblygiadau o gael pwyllgorau rhwng 11 a 21 aelod mewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol, os ydynt yn cadw eu swyddogaethau cynllunio.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun Ffred Jones'.

Alun Ffred Jones AC

Cadeirydd, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd